Cymorth i Brynu-Cymru
Help to Buy-Wales

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cymorth i Brynu – Cymru

## Canllaw ar sut mae eich data personol yn cael eu defnyddio

gan Help to Buy (Wales) Ltd ac
Asiantaethau Gwirio Credyd ac Atal Twyll

**Pwysig Diogelu Data**



## C Beth yw asiantaeth gwirio credyd?

**A** Mae asiantaethau gwirio credyd yn casglu a chadw gwybodaeth am ymddygiad ariannol defnyddwyr a busnesau, ar ran sefydliadau yn y DU.

## C Beth yw asiantaeth atal twyll?

**A** Mae asiantaethau atal twyll yn casglu, cadw a rhannu gwybodaeth ar weithgarwch twyllodrus hysbys neu weithgarwch twyllodrus y mae amheuaeth ohono. Mae rhai asiantaethau gwirio credyd hefyd yn gweithredu fel asiantaethau atal twyll.

## C Pam rydych chi'n defnyddio'r asiantaethau hyn pan wyf wedi gwneud cais i'ch sefydliad chi?

**A** Er eich bod wedi gwneud cais i ni, Help to Buy (Wales) Ltd, ac y byddwn yn gwirio ein cofnodion ein hunain, byddwn hefyd yn cysylltu ag asiantaethau gwirio credyd i gael gwybodaeth am eich ymddygiad ariannol gyda sefydliadau eraill. Bydd y wybodaeth hon yn ein helpu ni i wneud yr asesiad gorau posibl o'ch sefyllfa gyffredinol cyn i ni wneud penderfyniad.

## C O ble maen nhw'n cael yr wybodaeth?

**A** Gwybodaeth sydd ar gael yn gyhoeddus:

- Y Gofrestr Etholwyr gan awdurdodau lleol.
- Dyfarniadau'r Llysoedd Sirol gan y cwmni Registry Trust.
- Gorchmynion methdalu (a gorchmynion eraill tebyg) gan y Gwasanaeth Ansolfedd.
- Gall gwybodaeth am dwyll hefyd ddod gan asiantaethau atal twyll.
- Daw gwybodaeth credyd o wybodaeth am geisiadau i fanciau, cymdeithasau adeiladu, cwmnïau cardiau credyd ac ati a hefyd o wybodaeth ynglŷn â sut mae'r cyfrifon hynny'n cael eu rheoli.

## C Sut byddaf yn gwybod os yw gwybodaeth amdanaf yn mynd i gael ei hanfon at asiantaeth gwirio credyd neu asiantaeth atal twyll?

**A** Byddwn yn dweud wrthych pan fyddwch yn gwneud cais am gyfrif os yw eich data ymgeisio'n mynd i gael eu darparu. Bydd adran nesaf y daflen hon yn dweud wrthych chi sut, pryd a pham y byddwn yn chwilio am wybodaeth gan asiantaethau gwirio credyd ac asiantaethau atal twyll a'r hyn y byddwn yn ei wneud â'r wybodaeth a gawn ganddyn nhw. Byddwn hefyd yn dweud wrthych os ydym yn bwriadu anfon gwybodaeth am hanes eich taliadau chi neu eich busnes, os oes gennych un, at asiantaethau gwirio credyd. Gallwch holi am enwau asiantaethau gwirio credyd ac asiantaethau atal twyll ar unrhyw adeg.

## C Pam mae fy nata yn cael eu defnyddio fel hyn?

**A** Rydym ni a sefydliadau eraill am wneud y penderfyniadau gorau y gallwn, er mwyn sicrhau y byddwch chi, neu eich busnes, yn gallu ein had-dalu. Gall rhai sefydliadau hefyd ddefnyddio'r wybodaeth i wirio eich hunaniaeth. Trwy wneud hyn, gallwn sicrhau bod pob un ohonom yn gwneud penderfyniadau cyfrifol. Ar yr un pryd, rydym eisiau gwneud penderfyniadau'n gyflym ac yn rhwydd a, thrwy ddefnyddio gwybodaeth gyfredol, wedi ei darparu'n electronig, rydym yn gallu gwneud y penderfyniadau mwyaf dibynadwy a theg.

## C Pwy sy'n rheoli beth mae asiantaethau o'r fath yn cael ei wneud gyda fy nata?

**A** Mae pob sefydliad sy'n casglu a phrosesu data personol yn cael ei reoleiddio gan Ddeddf Diogelu Data 1998, ac yn cael ei oruchwylio gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Mae pob asiantaeth gwirio credyd yn cynnal deialog parhaus â'r Comisiynydd. Caiff defnydd o'r Gofrestr Etholwyr ei reoli dan Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 2000.

## C A all unrhyw un edrych ar fy nata a ddelir gan asiantaethau gwirio credyd?

**A** Na, mae mynediad at eich gwybodaeth yn cael ei reoli'n llym a dim ond y rhai â'r hawl i wneud hynny sy'n cael ei gweld. Fel arfer, gellir ond ei gweld gyda'ch cydsyniad chi neu (yn achlysurol iawn) os oes gofyniad cyfreithiol.

# Darllenwch y rhan hon yn ofalus iawn; bydd yn amrywio o fenthyciwr i fenthyciwr

## Yr hyn rydym yn ei wneud

### 1) Pan fyddwch yn gwneud cais i ni am fenthyciad rhannu ecwiti, byddwn yn:

**a.** Gwirio ein cofnodion ein hunain i ganfod gwybodaeth am:

- Eich cyfrifon personol;
- a chyfrifon personol eich cysylltteion ariannol[1] os oes gynnych rai; ac
- os ydych yn berchennog, cyfarwyddwr neu bartner mewn busnes bach[2] gallwn wirio eich cyfrifon busnes hefyd.

**b.** Chwilio am wybodaeth mewn asiantaethau gwirio credyd am:

- Eich cyfrifon personol:
- a chyfrifon personol eich cysyllteion ariannol (os ydych yn gwneud cais ar y cyd, os ydych wedi gwneud cais ar y cyd yn flaenorol, os oes gennych gyfrif ar y cyd, neu os oes cysylltiad ariannol rhyngoch chi[3];
- yn achlysurol iawn, os nad oes digon o wybodaeth i'n galluogi ni i roi cymorth i chi, efallai y byddwn hefyd yn defnyddio gwybodaeth am aelodau eraill o'ch teulu;
- os ydych yn gyfarwyddwr neu bartner mewn busnes bach, efallai y byddwn yn gwirio eich cyfrifon busnes hefyd;

**c.** Chwilio asiantaethau atal twyll am wybodaeth amdanoch chi ac unrhyw gyfeiriadau rydych wedi byw ynddynt ac am eich busnes (os oes gennych un).

**[1] Cysylltai ariannol yw rhywun y mae gennych berthynas bersonol ag ef sy'n creu uned ariannol ar y cyd mewn ffordd debyg i bâr priod. Byddwch wedi bod yn byw yn yr un cyfeiriad ar yr un pryd. Ni fwriedir cynnwys trefniadau dros dro fel myfyrwyr neu bobl sy'n rhannu fflat wedi'i rhentu neu berthnasau busnes.**

**[2] Diffinnir busnes bach fel sefydliad a all fod yn fasnachwr unigol, partneriaeth, neu gwmni cyfyngedig sydd ag uchafswm o dri o bartneriaid neu gyfarwyddwyr.**

**[3] Gall asiantaethau gwirio credyd gysylltu cofnodion pobl sy'n rhan o uned ariannol â'i gilydd. Gallant wneud hyn pan fydd yn hysbys bod cysylltiad rhwng pobl, fel pan fydd pobl yn briod neu wedi gwneud cais ar y cyd am gredyd neu â chyfrifon ar y cyd. Gallant hefyd gysylltu pobl â'i gilydd os ydyn nhw eu hunain yn datgan bod cysylltiad ariannol rhyngddynt.**

## 2) Yr hyn rydym yn ei wneud gyda'r wybodaeth rydych yn ei rhoi i ni fel rhan o'r cais:

a. Bydd gwybodaeth a roddir i ni'n cael ei hanfon at yr asiantaethau gwirio credyd.

b. Os ydych yn gwneud cais ar y cyd neu'n dweud wrthym fod gennych briod neu gysylltai ariannol, byddwn yn gwneud y canlynol:

- Chwilio, cysylltu a/neu gofnodi gwybodaeth am y ddau ohonoch gan asiantaethau gwirio credyd.
- Cysylltu unrhyw unigolyn a nodwyd i fod yn gysylltai ariannol i chi, yn ein cofnodion ein hunain.
- Ystyried eich gwybodaeth chi a'u gwybodaeth nhw mewn ceisiadau yn y dyfodol gan y naill neu'r ddau ohonoch.
- Parhau'r cysylltu hwn nes bydd y cyfrif yn cau, neu'n cael ei newid i gyfrif unigol, a bod un ohonoch yn ein hysbysu nad oes cysylltiad rhyngoch bellach.

**Mae'n rhaid i chi sicrhau bod eich ymgeisydd ar y cyd, eich priod neu eich cysylltai ariannol yn cydsynio i chi ddatgelu gwybodaeth amdanynt.**

c. Os byddwch yn rhoi gwybodaeth ffug neu anghywir i ni a/neu os byddwn yn amau twyll hunaniaeth, byddwn yn cofnodi hyn ac fe allwn hefyd drosglwyddo'r wybodaeth i asiantaethau atal twyll a sefydliadau eraill sy'n ymwneud ag atal trosedd a thwyll.

d. Gallwn hefyd ddefnyddio eich data i gynnig cynhyrchion eraill i chi, ond dim ond os ydych wedi rhoi caniatâd i ni wneud hynny. Bydd hynny ar flaen unrhyw ffurflen yr ydych wedi ei llenwi.

## 3) Dyma'r hyn y byddwn yn ei wneud gyda'r wybodaeth yr ydym yn ei chael:

a. Asesu'r cais hwn am gredyd a/neu;

b. Gwirio manylion ar geisiadau am gredyd ac adnoddau sy'n ymwneud â chredyd neu adnoddau eraill;

c. Dilysu eich hunaniaeth a hunaniaeth eich priod, partner neu gyfarwyddwyr/partneriaid eraill a/neu;

d. Cynnal gwiriadau ar gyfer atal a chanfod trosedd, twyll a/neu wyngalchu arian.

e. Gallwn ddefnyddio dulliau sgorio i asesu'r cais hwn ac i ddilysu eich hunaniaeth.

f. Rheoli eich cyfrif personol a/neu eich cyfrif busnes (os oes gennych un) gyda ni.

g. Cynnal dadansoddiad neu brawf ystadegol rheolaidd i sicrhau cywirdeb cynhyrchion a gwasanaethau presennol a rhai ar gyfer y dyfodol.

h. Gall unrhyw un neu bob un o'r prosesau hyn fod yn awtomatig.

## 4) Yr hyn rydym yn ei wneud pan fydd gennych gyfrif:

a. Lle rydych yn benthyca gennym neu'n cael benthyca gennym, byddwn yn rhoi manylion eich cyfrif personol a/neu eich cyfrif busnes (os oes gennych un), gan gynnwys enwau a manylion y bobl sydd â hawl mynediad at y cyfrif a sut rydych yn ei reoli neu'n eu rheoli, i asiantaethau gwirio credyd.

b. Os ydych yn benthyca ac nad ydych yn ad-dalu'n llawn ac yn brydlon, byddwn yn dweud wrth asiantaethau gwirio credyd.

c. Gallwn chwilio ein cofnodion grŵp ein hunain a rhai asiantaethau gwirio credyd yn rheolaidd i reoli eich cyfrif gyda ni, gan gynnwys penderfynu a ddylid rhoi credyd neu barhau neu ymestyn credyd presennol. Gallwn hefyd wirio gydag asiantaethau atal twyll i atal neu ganfod twyll.

d. Os ydych wedi benthyca gennym ni ac nad ydych yn gwneud taliadau sy'n ddyledus i ni, byddwn yn canfod eich lleoliad ac yn adennill dyledion.

# Beth mae Asiantaethau Gwirio Credyd ac Atal Twyll yn ei wneud?

## 5) Pan fydd asiantaethau gwirio credyd yn derbyn chwiliad gennym, dyma fyddant yn ei wneud:

a. Gosod "ôl troed" chwilio ar eich ffeil credyd pa un a yw'r cais hwn yn mynd yn ei flaen ai peidio. Os oedd y chwiliad am gais am gredyd, gall sefydliadau eraill weld cofnod o'r chwiliad hwnnw (ond nid enw'r sefydliad a gynhaliodd y chwiliad) pan fyddwch yn gwneud cais am gredyd yn y dyfodol.

b. Cysylltu eich cofnodion chi gydag unrhyw un yr ydych wedi hysbysu ei fod yn gysylltai ariannol i chi gan gynnwys enwau blaenorol a dilynol y bobl sydd â hawl mynediad at y cyfrif. Bydd cysylltiadau rhwng cysylltеion ariannol yn parhau ar eich ffeil chi a'u ffeil nhw nes y byddwch chi neu eich partner yn cofnodi cais llwyddiannus am ddatgysylltiad[4] gyda'r asiantaethau gwirio credyd.

[4] **Gall cysylltеion ariannol (gweler adran 1 "dorri'r cysylltiad" rhyngddynt os yw eu hamgylchiadau'n newid i'r graddau nad ydynt bellach yn uned ariannol. Dylent wneud cais am eu ffeil credyd gan asiantaeth gwirio credyd a chofnodi cais am "ddatgysylltiad".**

## 6) Dyma'r hyn y byddant yn ei ddarparu i ni:

a. Gwybodaeth credyd fel ceisiadau blaenorol ac ymddygiad ariannol cyfrifon yn eich enw ac yn enw eich cysylltai/cysylltеion (os oes cysylltiad rhyngoch – gweler 1b uchod) a/neu eich cyfrifon busnes (os oes gennych un).

b. Gwybodaeth gyhoeddus fel dyfarniadau'r Llysoedd Sirol a methdaliadau.

c. Gwybodaeth o'r Gofrestr Etholwyr.

d. Gwybodaeth atal twyll.

## 7) Pan fyddwn ni'n darparu gwybodaeth iddyn nhw am eich cyfrif/cyfrifon:

a. Bydd asiantaethau gwirio credyd yn cofnodi'r manylion a ddarperir am eich cyfrif personol a/neu eich cyfrif busnes (os oes gennych un), gan gynnwys unrhyw enwau blaenorol a dilynol sydd wedi cael eu defnyddio gan ddeiliaid y cyfrif a sut rydych yn rheoli'r cyfrif neu gyfrifon.

b. Os ydych yn benthyca ac nad ydych yn ad-dalu'n llawn ac yn brydlon, bydd asiantaethau gwirio credyd yn cofnodi'r ddyled sydd heb ei had-dalu.

c. Mae cofnodion a rennir ag asiantaethau gwirio credyd yn aros mewn ffeil am chwe blynedd ar ôl iddynt gael eu cau, pa un ai yr ydych wedi talu neu wedi methu â thalu.

## 8) Ni fydd eich data'n cael eu defnyddio fel a ganlyn gan asiantaethau gwirio credyd:

a. Ni fyddant yn cael eu defnyddio i greu cosbrestr.

b. Ni fyddant yn cael eu defnyddio gan yr asiantaeth gwirio credyd i wneud penderfyniad.

## 9) Dyma sut BYDD eich data'n cael eu defnyddio gan asiantaethau gwirio credyd:

**a.** Gall asiantaethau gwirio credyd roi gwybodaeth yr ydym ni a sefydliadau eraill yn ei darparu amdanoch chi, eich cysylltieion ariannol a'ch busnes (os oes gennych un) i sefydliadau eraill a gall y sefydliadau hynny ei defnyddio i:

- Atal trosedd, twyll a gwyngalchu arian trwy, er enghraifft, wirio manylion a ddarperir ar geisiadau am gredyd ac adnoddau sy'n ymwneud â chredyd neu adnoddau eraill.
- Gwirio gweithrediad cyfrifon credyd a chyfrifon sy'n ymwneud â chredyd.
- Dilysu eich hunaniaeth os ydych chi neu eich cysylltai ariannol yn gwneud cais am adnoddau eraill.
- Gwneud penderfyniadau ar wasanaethau credyd neu wasanaethau sy'n ymwneud â chredyd amdanoch chi, eich partner, ac aelodau eraill o'ch cartref neu eich busnes.
- Rheoli eich credyd, cyfrif neu gyfrif sy'n ymwneud â chredyd neu adnoddau eraill personol chi, eich partner a/neu eich busnes (os oes gennych un).
- Canfod eich lleoliad ac adennill dyledion sy'n ddyledus gennych.
- Cynnal dadansoddiad ystadegol a phrawf system.

## 10) Sut y gall asiantaethau atal twyll ddefnyddio eich data:

**a.** Gall asiantaethau atal twyll roi gwybodaeth yr ydym ni a sefydliadau eraill yn ei darparu amdanoch chi, eich cysylltieion ariannol a'ch busnes (os oes gennych un) i sefydliadau eraill a gall y sefydliadau hynny ei defnyddio i:

- Atal trosedd, twyll a gwyngalchu arian trwy:
- Wirio manylion ar geisiadau am gredyd ac adnoddau sy'n ymwneud â chredyd neu adnoddau eraill.
- Rheoli credyd a chyfrifon neu adnoddau sy'n ymwneud â chredyd.
- Croeswirio manylion a ddarperir ar geisiadau a hawliadau am bob mathau o yswiriant.
- Gwirio manylion ar geisiadau am swyddi neu pan gaiff manylion eu gwirio fel rhan o gyflogaeth.

**b.** Dilysu eich hunaniaeth os ydych chi neu eich cysylltai ariannol yn gwneud cais am adnoddau eraill, gan gynnwys pob mathau o geisiadau a hawliadau yswiriant.

**c.** Canfod eich lleoliad ac adennill dyledion sy'n ddyledus gennych.

**d.** Cynnal gwiriadau eraill i atal neu i ganfod twyll.

**e.** Cynnal dadansoddiad ystadegol a phrawf system.

## 11) Sut y gellir defnyddio eich data mewn ffyrdd eraill:

**a.** Gellir defnyddio eich data hefyd at ddibenion eraill yr ydych wedi eu caniatáu yn benodol neu, mewn amgylchiadau prin iawn, pan fydd yn ofynnol yn gyfreithiol neu pan gaiff ei ganiatáu yn unol â thelerau Deddf Diogelu Data 1998.

**b.** Gellir defnyddio eich data hefyd i gynnig cynhyrchion eraill i chi, ond dim ond os ydych wedi rhoi caniatâd i ni wneud hynny.

## Sut i gael mwy o wybodaeth

Gallwch gysylltu â'r asiantaethau gwirio credyd sy'n gweithredu ar hyn o bryd yn y DU; efallai nad yw'r wybodaeth a ddelir ganddynt yr un fath felly mae'n werth cysylltu â phob un ohonynt. Byddant yn codi ffi statudol fechan arnoch.

**CallCredit**, Consumer Services Team,
PO Box 491, Leeds, LS3 1WZ
neu ffoniwch 0870 060 1414
neu mewngofnodwch ar www.callcredit.co.uk

**Equifax**, Credit File Advice Centre,
PO Box 3001, Bradford, BD1 5US
neu ffoniwch 0870 010 0583
neu mewngofnodwch ar www.equifax.co.uk

**Experian**, Consumer Help Service,
PO Box 8000, Nottingham NG80 7WF
neu ffoniwch 0844 481 8000
neu mewngofnodwch ar www.experian.co.uk.

OGL © Hawlfraint y Goron 2018 WG33785 ISBN digidol 978-1-78903-568-1